# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 21 Ionawr 2026

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Sesiwn gyhoeddus

09.30 - 11.40

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Mewnfuddsoddi: Panel 3

09.30 - 10.30 (Tudalennau 1 - 23)

Jessica Hooper, Cyfarwyddwr, Renewable UK Cymru

Janis Richards, Cyfarwyddwr Aelodaeth - Cymru, Make UK

Yr Athro Max Munday, Cyfarwyddwr yr Uned Ymchwil i Economi Cymru - Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Egwyl

10.30 - 10.40

## 3 Mewnfuddsoddi: Panel 4

10.40 - 11.40 (Tudalennau 24 - 27)

Ken Poole, Pennaeth Datblygu Economaidd, Cyngor Caerdydd

Y Cynghorydd Dave Hughes, Arweinydd, Cyngor Sir y Fflint

Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth - Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)

## 4 Papurau i'w nodi

11.40

### 4.1 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

(Tudalennau 28 - 34)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yng Nghyfnod 1 - 12 Ionawr 2026

### 4.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalennau 35 - 36)

**Dogfennau atodol:**

Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 9 Ionawr 2026

Cytundeb y Dreftadaeth Geltaidd - Adroddiad Blynyddol - Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad - 14 Ionawr 2026

**4.3 Comisiwn Ewropeaidd yn mabwysiadu penderfyniadau digonolrwydd data newydd gyda'r DU**

(Tudalen 37)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 14 Ionawr 2026

**4.4 Gwaith dilynol yn sgil y sesiwn graffu cyffredinol ar waith y Gweinidog a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2025**

(Tudalennau 38 – 43)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros y Economi, Ynni a Chynllunio – 14 Ionawr 2026

**4.5 Ymchwiliad i Ddur**

(Tudalennau 44 – 45)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.40

## Sesiwn breifat

11.40 – 12.00

## 6 Mewnfuddsoddi: Ystyriaeth o dystiolaeth

11.40 – 11.55

## 7 Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Trefn ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2

11.55 – 12.00 (Tudalennau 46 – 50)

**Dogfennau atodol:**

Trefn ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2 (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

# Economy, Trade, and Rural Affairs Committee, Welsh Parliament

## Inquiry into Inward Investment

Please find below the written response from Swansea Council against the questions listed in the terms of reference.

***How effective is the Welsh Government's approach to attracting inward investors to Wales, and what are its main strengths and weaknesses?***

***How should any perceived weaknesses be addressed?***

The Welsh Government's approach to attracting investors has shown positive results over the last 12 months, although there are areas for improvement.

Strengths

- Welsh Government funding through schemes like the Transforming Towns programme has allowed a wide range of investment opportunities in Swansea to come to fruition.
- In 2024–25, a 23% year-on-year increase has seen Wales secured 65 FDI projects—a 23% year-on-year increase
- Inward Investment Summit putting Wales on a global stage, during which Swansea Council were pleased to promote our Porth Copr development investment opportunity at the Capital Investment Session.
- Looking ahead it is pleasing to see that for the first time there will be an All Wales stand at UK Real Estate, Infrastructure and Investment Forum (UKREiiF) 2026. Giving the Welsh regions the platform to showcase the range of investment opportunities as a united Wales.

Weaknesses

- Better Soft-Landing support for foreign investors with financial incentives and greater support mechanisms, will help Wales compete better with other regions of the UK.
- Need for new commercial properties and refurbishment of older and aging commercial properties. South West Wales has a commercial property occupancy rate of 96.6%, which demonstrates the demand for commercial property in the region. Expanding the Development Bank of Wales Commercial Property Fund would help investors development new sites.

***To what extent does the Welsh Government's approach to attracting inward investment target areas of strength within the Welsh economy?***

***How successfully it is taking opportunities in emerging sectors with the potential to play a key role in the future economy?***

The Welsh Government's approach to focus on key industry clusters through Enterprise and Growth Zones is generally a good approach. Currently there is no such zone located within Swansea, this is something that we would be welcomed in Swansea.

Continued investment in new emerging sectors such as compound semiconductors, fintech, advanced manufacturing and clean energy needs to be supported with the relevant skills and training requirements.

***How well do the different layers of government work together to bring inward investment into Wales, and are there any improvements that could be made?***

The Welsh Government's Inward Investment team works alongside the UK Government's Department for Business and Trade. This is the key source of inward investment referrals from UK government, although there has been an apparent decline in referrals in recent years.

Recent collaborative work between the UK and Welsh Governments include the delivery of two Investment Zones in Wales, the designation of two Welsh Freeports and more recently the launch of the Local Innovation Partnerships Fund. All of which are aimed to boost economic growth and attract further inward investment to create job opportunities.

As demonstrated through the successful delivery of the Shared Prosperity Fund, where Swansea Council acted as the lead authority on behalf of the South West Wales region. Local government can play a key role in the distribution of funding due to its understanding of local needs in areas like skills, business, community, and infrastructure.

***How effectively does the Welsh Government provide ongoing support to inward investors, and to what extent does this support existing investors to expand or safeguard their operations in Wales?***

The Welsh Government provides effective ongoing support primarily through its through its Trade and Invest initiative, where Business Development and Relationship managers provide specialist in key sectors (inward investment team). This is supported through the Business Wales which helps businesses stay and grow in Wales. Discretionary funding support mechanisms are available to businesses looking to expand or safeguard their operations in Wales.

Although the extent to which Welsh Government provide ongoing support to inward investors is limited to the resources available to the Welsh Government inward investment team.

***What are the key barriers Wales faces in attracting and retaining inward investment, and how should these be tackled?***

- Having a clear brand and identity - Further develop Brand Wales through the Trade & Invest, Study Wales and Visit Wales channels.
- Transitioning from traditional heavy industries (i.e. Steel & Coal) into new industries – With a particular focus on Life Sciences and Clean Energy, Life Sciences and Advanced Manufacturing within the Swansea region.
- Skills and training – Work with Industry, Academia and Regional Skills Partnerships to further develop skills in new emerging sectors.
- Talent drain – Attract better-paid jobs primarily through economic regeneration, skills development aligned with key growth sectors, and city centre development to attract high-quality businesses and investment.
- Poor transport infrastructure – This can be resolved with the implementation of the Swansea Bay and West Wales Metro as well as extending the electrification of the main railway line to Swansea.
- Sites and property - Expanding the Development Bank of Wales Commercial Property Fund would help developers and investors build new sites.
- Post-Brexit Uncertainty – Have a clear roadmap for replacement funding schemes and allow Local Authorities a greater say over how to target regional aid funding at local projects of benefit for local people and economies and best support infrastructure, environment, enterprise and social cohesion.

***Which examples of best practice from beyond Wales could the Welsh Government learn from in relation to attracting inward investment and providing ongoing support to inward investors?***

It is evident that the Welsh Government has already adopted best practice in attracting inward investment through the cluster-led strategy for key and emerging sectors such as clean energy and semiconductors.

Create a soft-landing hub in priority clusters (e.g., semiconductors, clean energy), offering workspace, mentorship, legal/regulatory services, and local university links. Examples of soft-landing programmes can be found in across the US (Maryland, Detroit, NY), Europe (Hamburg, H2020 Project) and within the UK (North East England, West Midlands).

***To what extent does the available data provide a clear and comprehensive picture of inward investment into Wales, and are there any improvements that should be made?***

Official statistics from Welsh Government and the Department for Business and Trade provide a general picture of inward investment into Wales.  But greater data on the long-term impact, investment quality and the spread across Wales would be welcomed.

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-MDFWL-3074-25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Ionawr 2026

Annwyl Andrew,

**Datblygu'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Diolch i chi ac i'r Pwyllgor am graffu'n fanwl ar ddatblygiad y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), am eich adroddiad a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2025, ac am yr argymhellion sy'n cyd-fynd â hynny.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Rwy'n bwriadu ymateb i'r prif bwyntiau a godwyd yn yr argymhellion yn ystod y ddadl ei hun a byddaf yn ysgrifennu eto ar ôl y ddadl os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol ei rhannu cyn Cyfnod 2. Fodd bynnag, yn unol â'ch cais, mae'r ymatebion rhagarweiniol i argymhellion 6, 13, 15, 17, 18, 20, 21 a 23 yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Mae pob un o'r rhain yn cynnig bod y Llywodraeth yn darparu gwybodaeth 'cyn' y ddadl yn y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Cyllid, er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Ymatebion Rhagarweiniol i Argymhellion Adroddiad Cyfnod 1**

## Diwygiadau Cyfnod 2

### Argymhelliad 6

*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa welliannau y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.*

Yn fy ymateb i'r argymhelliad hwn, rwyf wedi nodi isod amryw o ddiwygiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2, gan gynnwys y rhai mewn ymateb i faterion a godwyd gan aelodau o'r Pwyllgor a rhanddeiliaid eraill yn ystod proses graffu Cyfnod 1, ac argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Mae swyddogion hefyd yn parhau i adolygu'r Bil yng ngoleuni'r dystiolaeth a roddwyd yn ystod proses graffu Cyfnod 1, gan gynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig ategol y cyfeirir ati yn argymhelliad 23, er mwyn ystyried a fydd cyfleoedd eraill i egluro effaith fwriadedig y Bil, a byddaf yn cyflwyno amryw o ddiwygiadau yn y Bil drwyddo draw at y diben hwn.

Gan ddychwelyd i **argymhelliad 6**, mae'r diwygiadau a nodir isod hefyd yn cynnwys fy ymateb i nifer o argymhellion eraill gan y Pwyllgor hwn, yn ogystal ag argymhellion 3, 5, 7 ac 8 gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. (Ym mhob un o'r achosion hyn, rwy'n bwriadu derbyn yr argymhellion cyfatebol, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor). Mae'r diwygiadau arfaethedig fel a ganlyn:

- <u>Cychwyn a dod i rym</u> (Adran 59) – I gynnwys darpariaeth codiad haul fel *backstop* i gychwyn y Ddeddf os nad yw wedi cychwyn erbyn y dyddiad a nodir.
  (Argymhelliad 4 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cyfeirio at hyn.)

- <u>Adolygu ar ôl gweithredu</u> – I gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad ôl-weithredu.
  (Argymhelliad 7 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac Argymhelliad 3 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

- <u>Gweithdrefn ar gyfer ymestyn diffiniad llety ymwelwyr rheoleiddiedig</u> (Adran 5) – I gynnwys gofyniad i ymgynghori am gyfnod gofynnol cyn defnyddio'r pŵer o dan baragraff 5(1)(b).
  (Argymhelliad 9 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac Argymhelliad 5 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

- <u>Safon atal tân</u> (Adran 9) – I egluro'r gofyniad a sicrhau cydraddoldeb â Gorchymyn Diogelwch Tân 2005.

(Argymhelliad 13 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cyfeirio at hyn.)

- Cyfnodau trwydded (Adran 25) – I gynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer gwahanol gyfnodau trwydded.
  (Argymhelliad 16 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cyfeirio at hyn.)

- Gweithdrefnau ar gyfer Rheoliadau (Adran 57) – I gynnwys cyfeiriad at adrannau 27 (trwyddedau dros dro), 38 (ffioedd) (ar gyfer y tro cyntaf y caiff rheoliadau o'r fath eu gwneud) a 40 (darpariaeth sy'n ymwneud â meysydd gwersylla a safleoedd carafanau) yn y rhestr o bwerau sy'n gorfod cael Cymeradwyaeth y Senedd.
  (Argymhelliad 19 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac Argymhellion 7 ac 8 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

- Troseddau – I gynnwys cyfyngiad ar ddarpariaethau o dan y Bil sy'n cynnwys y pŵer i greu troseddau i sicrhau nad yw euogfarnau'n arwain at ddedfryd o garchar.
  (Mae Argymhellion 6 ac 10 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at hyn.)

Bydd rhagor o wybodaeth am fanylion y diwygiadau hyn, ac unrhyw rai eraill sydd eu hangen, ar gael yn y ddogfen diben ac effaith a gaiff ei rhannu wrth gyflwyno yng Nghyfnod 2.

**Materion ychwanegol**

Mae gweddill yr Atodiad hwn yn cynnwys y wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani yn yr argymhellion priodol cyn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 15**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a chadarnhau nifer cyfartalog y trwyddedau ar y cyfan y mae Rhentu Doeth Cymru'n ymdrin â hwy bob blwyddyn a'r amser a gymer i brosesu ceisiadau ar hyn o bryd. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi hefyd unrhyw amcangyfrif a wnaed ganddo o'r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu a dyroddi'r 30,000 o drwyddedau llety ymwelwyr, yn ôl yr amcangyfrif, y bydd angen eu dyroddi ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun trwyddedu.*

Mae Swyddogion yn adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a rannwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor ar hyn yn ysgrifenedig, gan ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen hefyd, fel y nodir yn fy ymateb i argymhelliad 23 isod.

**Argymhelliad 17**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Senedd ynghylch sut y disgwylir i'r ddarpariaeth ar gyfer cwynion yn adran 22 weithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y bydd cwynion yn cael eu hasesu a beth fydd yr effaith ymarferol pe bai cwyn yn cael ei chadarnhau.*

Mae'r ddarpariaeth mewn perthynas â chwynion yn adran 22 yn darparu mecanwaith i roi gwybod i bob ymwelydd sut mae codi materion ynghylch statws trwydded y llety maent yn aros ynddo, oherwydd cwynion fydd un o'r prif ffynonellau gwybodaeth am doriadau posib o amodau trwydded.

Gellir cymryd camau penodol o dan y Bil dim ond os bydd cwyn yn rhoi rheswm i'r awdurdod trwyddedu gredu bod amod trwydded wedi'i dorri neu fod y darparwr llety wedi troseddu drwy ddarparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i'r awdurdod trwyddedu. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i'r awdurdod trwyddedu ofyn am ragor o wybodaeth gan y darparwr, naill ai'n anffurfiol neu o dan hysbysiad gwybodaeth; cynnal arolygiad; neu, os yw'n fodlon bod toriad wedi digwydd, cyhoeddi hysbysiad camau adfer yn rhoi gwybod i'r darparwr pa gamau mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gadw eu trwydded.

Dylai materion gael eu codi â'r darparwr neu'r asiant archebu yn y lle cyntaf, ond byddwn dynnu sylw at y mathau o faterion y dylid eu dwyn i sylw'r awdurdod trwyddedu. Bydd y canllawiau'n cynnwys manylion ychwanegol o ran sut yr ymdrinnir â chwynion i sicrhau bod ymwelwyr a darparwyr yn deall y broses.

**Argymhelliad 18 – Rolau Awdurdodau Lleol a Croeso Cymru**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch eu rôl bosibl yn y broses orfodi, ac egluro'r rôl bosibl y gallai Croeso Cymru ei chwarae.*

Mae swyddogion wedi cael – ac yn parhau i gael – trafodaethau â CLILC am rôl bosib awdurdodau lleol yn y broses orfodi ar y sail yr oeddwn i wedi'i disgrifio wrth roi tystiolaeth yn y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar fanylion gweithredol rhoi'r Bil ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei swyddogaethau twristiaeth presennol drwy ei dîm twristiaeth mewnol (Croeso Cymru) a bydd yn sicrhau bod y gwaith o gyflawni swyddogaethau twristiaeth o dan y Bil yn cael ei gydlynu â'r gwaith hwn.

Pe bai mathau eraill o lety yn cael eu hychwanegu at gwmpas y gyfundrefn drwyddedu yn y dyfodol, neu fod mathau newydd o amodau yn cael eu hychwanegu, byddai angen adolygu'r trefniadau hynny o fewn y cyd-destun newydd hwnnw.

**Argymhelliad 20**

*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach sut y bwriedir i'r ddarpariaeth yn adran 42 weithio'n ymarferol, gan gynnwys ei chyfiawnhad dros gynnwys 42(4).*

Bwriad y darpariaethau contractiol yw ategu'r cynllun trwyddedu, felly yn ogystal â'r awdurdod yn gorfodi amodau trwyddedu, mae llwybr clir i ymwelwyr gael iawndal os nad yw llety yn addas i aros ynddo. Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn cymell cydymffurfedd, yn atgyfnerthu hyder ymwelwyr ac yn hybu safonau llety ymwelwyr yng Nghymru.

Mae ymwelwyr eisoes yn disgwyl i ddarparwyr ddatrys problemau yn gyflym, a lle nad yw hynny'n bosib, i gytuno ar ddatrysiad teg ac addas. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ad-daliad llawn neu rannol, neu lety arall addas os yw'r broblem yn un sylweddol. Yn ymarferol, mae'r un peth yn berthnasol o dan y darpariaethau hyn, sef y byddem yn disgwyl i ddarparwr ac ymwelydd ddatrys y problemau hyn rhyngddynt eu hunain, heb fod angen camau cyfreithiol. Os na ellir datrys y mater fel arall; yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'r Bil yn codeiddio hawl yr ymwelydd i geisio rhwymedi drwy'r llysoedd. Fodd bynnag, ni fyddem yn rhag-weld y byddai'r awdurdod trwyddedu yn cymryd rhan yn y materion hyn, ac eithrio i'r graddau y maent yn rhyngweithio â swyddogaethau'r awdurdod i ddelio â thoriadau posib o amodau trwyddedu.

Mae'r Bil yn darparu cyfyngiadau i sicrhau bod y rhwymedigaeth yn rhesymol ac yn gymesur yn ymarferol. Mae adrannau 43 a 44 yn cyfyngu ar atebolrwydd y darparwr pan mai gweithredoedd yr ymwelydd ei hun yw achos y broblem, lle nad oedd y darparwr yn ymwybodol o broblemau (neu ni fyddai disgwyl yn rhesymol i'r darparwr fod yn ymwybodol), neu ar ôl dod yn ymwybodol bod y problemau wedi cael eu datrys o fewn cyfnod rhesymol.

Yn olaf, mae is-adran 42(4) yn egluro hyd a lled y rhwymedigaeth pan fydd partïon eraill yn gysylltiedig i sicrhau, er enghraifft, mewn achosion lle mae archeb yn cael ei gwneud ar ran yr ymwelydd gan berson arall, neu lle mae un person wedi archebu ar gyfer grŵp o bobl, bod y rhwymedigaeth yn berthnasol i'r holl ymwelwyr sy'n aros yn y llety. Bydd y canllawiau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y darpariaethau hyn cyn gweithredu.

**Argymhelliad 21**

*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet:*

- *ddarparu diweddariad am drafodaethau gyda phlatfformau/asiantau archebu ynghylch y darpariaethau yn adrannau 46 a 47,*
- *darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros estyn y drosedd arfaethedig i gyrff heblaw darparwyr llety ymwelwyr, a*
- *darparu rhagor o wybodaeth am y camau penodol y gallai fod angen eu cymryd i gadarnhau amddiffyniad i'r trosedd arfaethedig.*

Ymgysylltu
Mae Awdurdod Cyllid Cymru eisoes wedi bod yn trafod â rhai o'r platfformau archebu llety ymwelwyr mawr ynghylch gofynion ar gyfer rhifau cofrestru. Y bwriad yw gweithio at ddatrysiad sy'n gweithio ar raddfa fawr i helpu i'w gwneud hi mor hawdd â phosib iddynt fodloni'r gofynion. Mae fy swyddogion hefyd yn parhau i drafod y Bil yn ei gyfanrwydd â rhanddeiliaid ar draws y sector, gan gynnwys platfformau a chyrff cynrychioladol, a byddant yn parhau i weithio gyda nhw drwy gydol y broses o'i weithredu. Ein nod yw datblygu datrysiadau tebyg i blatfformau archebu llai a darparwyr eraill, yn ogystal â datblygu canllawiau gweithredol i amlinellu disgwyliadau clir ac i helpu i sicrhau bod y rhai sy'n hysbysebu llety ymwelwyr yng Nghymru yn gallu cydymffurfio'n hawdd â'r gofynion.

Sail resymegol
Wrth ddatblygu'r Bil, rydym wedi ystyried y ffordd orau o sicrhau bod ymwelwyr yn gallu gweld a yw llety ymwelwyr penodol wedi'i drwyddedu. Y ffordd orau o sicrhau eglurder, tryloywder a sicrwydd i bawb – ymwelwyr, y sector a chymunedau fel ei gilydd – yw cael un ffynhonnell wybodaeth gyhoeddus.

Dyna pam mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
- creu Cyfeiriadur Llety Ymwelwyr (drwy adran 45);
- rhoi rhif unigryw i bob eiddo llety ymwelwyr wrth gofrestru (drwy ddiwygiad i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn Atodlen 2 i'r Bil) sy'n cael ei gynnwys yn y Cyfeiriadur;
- gofyniad i'r rhif hwnnw gael ei ddangos mewn unrhyw hysbysebion a deunydd marchnata, pwy bynnag sy'n hysbysebu'r llety.

Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn creu un system dryloyw i unrhyw un allu defnyddio rhif cofrestru eiddo mewn hysbyseb i edrych ar y cyfeiriadur i weld a yw llety ymwelwyr penodol wedi'i gofrestru neu ei drwyddedu – ac os nad yw wedi'i drwyddedu, pam ddim.

Pwrpas y Bil yw hybu twristiaeth yng Nghymru ac mae'r gofynion o ran hysbysebu o dan adrannau 46 a 47 yn hollbwysig er mwyn rhoi sicrwydd i ymwelwyr sy'n archebu llety ymwelwyr rheoleiddiedig ei fod yn cyrraedd y safonau gofynnol. Maent yn rhan hanfodol o sicrhau uniondeb y cynllun, gan ddarparu adnodd i'r awdurdod trwyddedu, Awdurdod Cyllid Cymru, ymwelwyr ac eraill allu gweld yn haws a yw darparwyr yn cydymffurfio, a phan nad ydynt yn cydymffurfio, i helpu i'w hatal rhag hysbysebu, codi prisiau is na darparwyr eraill, a thanseilio hyder ymwelwyr mewn llety yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw risg o weithredwyr twyllodrus neu o farchnadoedd cudd neu anghyfreithlon yn cael eu creu i lety nad yw'n cydymffurfio.

Os nad yw'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn ddibynadwy, ni fydd hyn yn cael yr effaith a fwriedir. Dyna'r rheswm am y gofynion i fod yn gadarn ac i hyn fod yn berthnasol i bob llety ymwelwyr yng Nghymru, ar draws pob ffurf ar hysbysebu.

Pe baem yn cyfyngu ar y drosedd i ddarparwyr yn unig, byddai naill ai ddim yn berthnasol pan fydd trydydd parti yn hysbysebu eu llety neu gallai hyn golygu bod darparwyr yn

atebol am unrhyw hysbyseb am eu llety, dim ots a ydynt yn ei rheoli ai peidio. Byddai'r enghraifft gyntaf yn creu mannau gwan yn y system pan fydd llety'n cael ei hysbysebu'n anuniongyrchol ac yn golygu mai ychydig iawn o gymhelliant neu gyfrifoldeb fyddai gan blatfformau ac asiantaethau eraill o ran sicrhau bod rhifau cofrestru wedi'u cynnwys ar hysbysebion o gwbl. Gallai'r ail enghraifft olygu bod darparwyr llety ymwelwyr yn cael eu herlyn am wybodaeth anghywir neu ar goll mewn hysbysebion y mae ganddynt ychydig iawn neu ddim rheolaeth drostynt.

Nid yw hi'n afresymol bod platfformau archebu yn cael eu dwyn i gyfrif am sicrhau bod yr hysbysebion maent yn eu rhestru ar gyfer llety ymwelwyr yn cydymffurfio. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud ein gorau i gadw'r system, a'r gofynion hyn, mor syml â phosib i'w helpu i gydymffurfio, lle mae un rhif unigryw yn cael ei neilltuo i bob eiddo llety ymwelwyr ar draws Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i weithio drwy'r elfennau ymarferol a gweithredol gyda nhw, ac yn datblygu canllawiau manwl i amlinellu beth y byddwn yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr, platfformau archebu a mathau eraill o asiantau mewn perthynas â'r gofynion hyn.

Mae hwn yn gynllun sy'n canolbwyntio gyntaf oll ar gefnogi'r sector twristiaeth yng Nghymru drwy wella safonau, ond rhaid inni gael mesurau diogelu cyfreithiol lle bo angen hefyd. Felly, mae'r drosedd yn adran 47, gan gynnwys hysbysebion wedi'u postio gan blatfformau ac asiantaethau, yn angenrheidiol i gefnogi uniondeb ac effeithiolrwydd y cynllun.

<u>Amddiffyniad</u>
Byddwn yn gweithio gyda darparwyr a phlatfformau ar y manylion gweithredol, gan gynnwys y fformat a'r ffordd orau o ddangos rhifau cofrestru, pa wybodaeth arall fydd ei hangen o bosib, er mwyn inni allu datblygu proses sy'n gweithio i'r diwydiant ac sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn gallu cadarnhau gwybodaeth gofrestru a/neu drwyddedu'r llety.

Rwyf wedi ei gwneud hi'n glir drwy gydol y broses na fyddai erlyn yn gam cyntaf wrth ddelio â materion cydymffurfio, p'un ai darparwr, asiant teithio neu archebu neu blatfform archebu mawr sydd dan sylw. Cyhyd â bod platfformau archebu, neu unrhyw un y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol iddynt, yn dilyn y canllawiau ac yn gweithio gyda'r awdurdod trwyddedu i ddelio ag achosion o lety nad yw'n cydymffurfio mor effeithlon ag sy'n rhesymol ymarferol, byddwn yn disgwyl mai ychydig iawn o achosion fydd lle mae'r awdurdod trwyddedu yn dymuno erlyn trosedd o dan adran 47. Fodd bynnag, os bydd angen erlyn, y llysoedd fydd yn penderfynu a yw'r camau sydd wedi'u cymryd mewn achos penodol yn ddigon i fod yn esgus rhesymol dros beidio â dangos y rhif cofrestru cywir.

**Argymhelliad 23**
*Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r dystiolaeth ychwanegol benodol a gafodd y Pwyllgor.*

Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn cael ei gynnal a byddaf yn darparu unrhyw eglurhad neu ymateb ychwanegol gofynnol yn ysgrifenedig.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-004-26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

9 Ionawr 2026

Annwyl Mike

Ysgrifennaf atoch yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, ac ymhellach at fy llythyr dyddiedig 11 Tachwedd, i dynnu eich sylw at **Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** sy'n crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod diweddaraf o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyllid; Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

14 Ionawr 2026

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i roi gwybod bod Adroddiad Blynyddol 2025 y Cytundeb Cydweithredu Treftadaeth Geltaidd – Cernyw-Cymru wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Cernyw, a'i fod ar gael yma.

Llofnodwyd Cytundeb Cydweithredu Treftadaeth Celtaidd - Cernyw-Cymru gan Gyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf 2023. Mae'r Cytundeb, sy'n weithredol am bum mlynedd i gychwyn, yn adeiladu ar y trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng Cyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru drwy annog rhagor o gydweithio a dealltwriaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac o fudd iddynt. Cafodd pedwar maes, sy'n cynnig cyfle sylweddol i feithrin y berthynas rhwng Cernyw a Chymru, eu nodi. Sef:

a) Darparu tai cynaliadwy.
b) Cyflawni Sero Net
c) Economïau gwledig ffyniannus.
d) Dathlu iaith a diwylliant.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Ionawr 2026

Annwyl Andrew,

Ysgrifennais ym mis Awst y llynedd i roi gwybod i'r Pwyllgor, ar 22 Gorffennaf 2025, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi ei fod wedi lansio'r broses i fabwysiadu dau benderfyniad digonolrwydd newydd ar gyfer y DU i ganiatáu llif rhydd data personol rhwng yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r DU.

Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, ar 19 Rhagfyr 2025, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau bod y ddau benderfyniad digonolrwydd ar gyfer y DU wedi'u hadnewyddu. Mae'r penderfyniadau newydd yn ddarostyngedig i gymal machlud o chwe blynedd, sy'n para tan 27 Rhagfyr 2031. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd â chynrychiolwyr y Bwrdd Diogelu Data Ewropeaidd, hefyd yn adolygu gweithrediad y penderfyniadau digonolrwydd ar ôl cyfnod o bedair blynedd.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

cc.
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig

14 Ionawr 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy sesiwn graffu gerbron Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig ar 03 Rhagfyr 2025.

Gweler yr atebion isod i'ch cwestiynau:

**Ardaloedd Twf AI:**

*A allech chi roi mwy o fanylion ar Ardaloedd Twf AI, yn arbennig beth yn union rydych chi'n ddisgwyl y bydd yr ardaloedd yn ei wneud, a'r hyn rydych chi'n gobeithio y byddant yn ei gyflawni?*

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau'r cynlluniau a'r mentrau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiadau diweddar iawn am yr Ardaloedd Twf AI (AIGZs) yng Ngogledd a De Cymru. Fel enghraifft uniongyrchol, mae hen safle diwydiannol ffatri injans Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr eisoes yn destun cynlluniau ar gyfer adfywio a buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd fel rhan o Ardal Twf AI De Cymru. Wrth i'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gael eu cwblhau, byddwn yn gallu cyflwyno a chyhoeddi mwy o fanylion yn y mis i ddod.

Mae ein cynlluniau yng Nghymru yn cynnwys uchelgeisiau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i adeiladu Canolfannau Data ac alinio rhanddeiliaid o'r diwydiant, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus ar gyfer gwireddu ymchwil a datblygu ac arloesedd gyffredin ar gyfer datblygu, defnyddio a mabwysiadu AI yn y sector cyhoeddus a phreifat. Ar yr un pryd byddwn hefyd yn ceisio datblygu a thyfu ein cyfleoedd cychwynnol a mewnfuddsoddi mewn perthynas ag AI.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â'r AIGZs yn cynnwys gweithgareddau datblygu sgiliau a llwybr gyrfa fel rhan o gyflawniad craidd. Mae hyn yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ychwanegol at weithgareddau gyda phartneriaid buddsoddi sy'n gweithredu eu darpariaethau llwybr sgiliau eu hunain i gefnogi anghenion eu cadwyn gyflenwi.

**Swyddi wedi'u creu a'u diogelu**

*Os gwelwch yn dda, wnewch chi gynnwys eich union ddiffiniadau ar gyfer swyddi wedi'u creu ac wedi eu diogelu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pa mor hir y mae'n rhaid i'r swydd bara ar ôl ymyrraeth*.

Pan gânt eu darparu trwy ein prif fecanwaith ariannu, Cronfa Dyfodol yr Economi (EFF), mae swyddi wedi'u credu a'u diogelu yn cael eu diffinio fel swydd amser llawn parhaol sy'n gofyn am 30 awr neu fwy o waith yr wythnos gan un gweithiwr. Mae swydd ran-amser parhaol o fwy na 15 awr, ond llai na 30 awr neu fwy, yn cyfrif fel hanner swydd amser llawn parhaol, a gellir cronni'r swyddi rhan-amser parhaol hyn i gyfrif fel Cyfwerth ag Amser Llawn (FTEs).

Rhaid cynnal swyddi a gefnogir gan EFF am dair blynedd (BBaCh) neu bum mlynedd (Mawr) ar ôl i'r holl daliadau gael eu rhyddhau i'r busnes, ac mae'r cyllid yn amodol ar amodau Monitro ar Ôl Cwblhau ffurfiol, lle mae allbynnau yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth. Gall diffygion yn erbyn yr allbynnau hyn arwain at adennill cyfran o'r arian a ryddhawyd yn flaenorol.

Yn fwy cyffredinol, drwy ei weithgareddau, mae Busnes Cymru yn diffinio swydd wedi’i chreu fel swydd newydd y disgwylir iddi fodoli am o leiaf 12 mis ac nad oedd yn bodoli cyn yr ymyrraeth gymorth neu'r buddsoddiad. Mae swydd wedi'i diogelu yn swydd sy'n bodoli eisoes a ystyriwyd fel swydd mewn perygl cyn yr ymyrraeth cymorth neu'r buddsoddiad.

**Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd**

*Rhagor o fanylion ynglŷn â chyllid.*

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) wedi derbyn ymrwymiad cyllid hyd at ddiwedd mis Medi 2026, o fewn yr ymrwymiad o ddyraniad o £50 miliwn a wnaed yn 2021. Bydd hyn yn galluogi'r cwmni i barhau i weithio tuag at ei amcan o ddarparu cynllun wedi'i gynllunio a'i ganiatáu i gynnwys y cyfleuster ymchwil, datblygu, arloesi a phrofi rheilffyrdd ynghyd â mentrau cysylltiol y gellir eu gosod ar safle Nant Helen. Bydd y cyllid y cytunwyd arno yn bodloni'r costau gweithredol a chyfalaf hyd at y pwynt y gellir gwneud penderfyniad buddsoddi terfynol ar gam cyflawni'r prosiect.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda GCRE Ltd a Llywodraeth y DU i fanteisio ar y cyfle a gyflwynir gan brosiect GCRE ac i sicrhau y gwneir y mwyaf o'r budd a ddaw o bartneriaeth â'r sector preifat.

**Prosiect i ddefnyddio gwres a gynhyrchir o hen fwyngloddiau**

*Manylion pellach y prosiect i ddefnyddio gwres a gynhyrchir o hen fwyngloddiau sy'n cael ei gynnal gan Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio*.

Gan adeiladu ar y mapiau Cyfleoedd i adfer Gwres Dŵr Mwyngloddiau a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, nododd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

gyfle ar gyfer adfer gwres carbon isel yng nghynllun trin dŵr pwll glo Lindsay ger Rhydaman, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r dŵr, sy'n digwydd yn naturiol ac sy'n cael ei drin gan yr Awdurdod yn gynnes o ganlyniad i egni geothermol o gramen y ddaear a'r gwres sydd wedi ei gadw o'i amser yn cylchredeg trwy haenau creigiau tanddaearol a chyn byllau glo. Mae'r gwres hwn sydd heb ei ddefnyddio hyd yma nawr yn cael ei harneisio i ddarparu gwres carbon isel ar gyfer busnes cyfagos.

Mae'r prosiect arloesol yn defnyddio cyfnewidwyr gwres sydd o dan y dŵr yn un o'r pyllau gwaddodi yng nghynllun Lindsay i adfer gwres o ddŵr y pwll glo, sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i uned ddiwydiannol gyfagos i gyflenwi gwres carbon isel a dŵr poeth. Rhagwelir y bydd yn arbed 17.5 tunnell o CO2 y flwyddyn.

Mae'r cynllun trin dŵr yn agos iawn at barc diwydiannol, a gweithiodd yr MRA gyda busnes lleol Thermal Earth Ltd i gyflenwi gwres i'w huned ddiwydiannol gyfagos. Mae Thermal Earth hefyd yn osodwyr pympiau gwres achrededig, felly mae'r prosiect wedi datblygu eu profiad ac ehangu eu dealltwriaeth hefyd.

Mae'r MRA yn parhau i weithio gyda sefydliadau yng Nghymru i edrych ymhellach ar gynlluniau posibl i gyflenwi gwres i adeiladau newydd ac adeiladau presennol.

**Swyddi wedi'u creu a'u diogelu drwy gymorth Llywodraeth Cymru**

*Dadansoddiad o nifer a lleoliad y swyddi wedi’u creu a'u diogelu gan gymorth Llywodraeth Cymru.*

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â darn o waith ynglŷn â nifer a swyddi a gefnogir, a'u lleoliadau, a bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn y datganiad ystadegol nesaf ym mis Chwefror 2026.

**Cyflawni datblygiad economaidd gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol**

*Eich disgwyliadau ar gyfer cyflawni datblygiad economaidd gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.*

Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer y Gronfa Twf Lleol. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, rydym yn cynnig y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) yn darparu arweinyddiaeth ranbarthol a goruchwyliaeth strategol o'r Gronfa Twf Lleol, gan gydlynu buddsoddiadau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu economaidd rhanbarthol. Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, rydym hefyd yn disgwyl datblygu capasiti a gallu'r Cyd-bwyllgorau'n ystod y flwyddyn bontio, gan eu galluogi i yrru twf economaidd cydlynol a hirdymor ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Cymorth i fusnesau bach a chanolig sy'n denu mewnfuddsoddiad**

*Rhagor o fanylion am y gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig o ran denu mewnfuddsoddiad, sut mae hynny'n cefnogi'r cadwyni cyflenwi, uwchsgilio busnesau bach a chanolig, y defnydd o AI, a beth mae Busnes Cymru yn ei gynnig yn y meysydd hyn.*

Mae cymorth Busnes Cymru yn helpu i wneud Cymru yn gynnig deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru gael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddechrau, cynnal a thyfu eu busnesau. Mae'r gwasanaeth yn helpu busnesau bach a chanolig i adeiladu busnesau mwy gwydn a datblygu eu harferion busnes. Ei nod yw gwella cynhyrchiant ac ysgogi twf busnes mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy, trwy well buddsoddiad, allforio a chreu cyflogaeth o ansawdd da.

Mae Busnes Cymru yn rhoi mynediad i entrepreneuriaid a busnesau at ystod eang o wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i'w helpu i ddechrau, i dyfu, ac i uwchsgilio. Mae'r cymorth yn cynnwys cyngor busnes cyffredinol; cydraddoldeb a gwaith teg; effeithlonrwydd adnoddau; a manteisio ar fasnach ryngwladol; mentora a thechnoleg ddigidol. Darperir cymorth pwrpasol hefyd i helpu busnesau i gael gafael ar fwy o gyfleoedd caffael; gwella prosesau marchnata a gwerthu; dod o hyd i gyllid; a chael cyngor ym maes cyflogaeth, adnoddau dynol a sgiliau.

Busnes Cymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau cyflogwyr mewn perthynas â datblygu'r gweithlu, cyflogaeth a chymorth sgiliau. Mae hyn yn cynnwys aelodau llinell gymorth ymroddedig i ddarparu gwybodaeth rheng flaen a chynghorwyr sgiliau ymroddedig sy'n gweithio gyda busnesau i ddeall eu hanghenion ac i gyfeirio at gymorth perthnasol o dan Recriwtio a Hyfforddi Busnesau. Mae Recriwtio a Hyfforddi Busnes Cymru yn darparu cymorth datblygu sgiliau i helpu gweithwyr ddysgu sgiliau newydd er budd busnes, neu i chwistrellu talent newydd i'r tîm, ac mae'n cynnig mynediad at lawer o raglenni Llywodraeth Cymru a all gefnogi anghenion sgiliau, hyfforddiant a recriwtio.

Mae Busnes Cymru yn helpu i wella cadwyni cyflenwi ac mae'n gweithio gyda phrynwyr yn y sector cyhoeddus i alluogi busnesau yng Nghymru i sicrhau cyfran uwch o wariant y sector cyhoeddus. Mae hefyd yn darparu cyngor caffael i helpu busnesau i wneud ceisiadau am gontractau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Gall Busnes Cymru hefyd helpu i ddatblygu dealltwriaeth a chwblhau'r prosesau caffael a gweithio gyda phrynwyr i gynnal digwyddiadau gan gynnwys sesiynau briffio i gyflenwyr a digwyddiadau cwrdd â'r prynwyr. Mae Ymgynghorwyr Tendro yn helpu busnesau i fod yn 'addas i dendro' er mwyn gwella eu siawns o ennill contractau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, i is-gontractio gwaith ar brosiectau mawr y sector cyhoeddus, ac i sicrhau eu lle ar fframweithiau'r sector cyhoeddus. Maent hefyd yn helpu busnesau i ddeall caffael yn y sector cyhoeddus, deall anghenion a disgwyliadau prynwyr, a sut i wneud yn fawr o GwerthwchiGymru, gan gynnwys helpu i gofrestru ac i fireinio proffiliau.

Mae Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ysgogi mabwysiadu technoleg ddigidol, gan gefnogi cleientiaid i ddeall a mabwysiadu datrysiadau digidol i wella gweithrediadau ariannol a busnes, gwytnwch seiber ac e-fasnach i gyrraedd mwy o gwsmeriaid a symleiddio prosesau gwaith, sy'n cynnwys defnydd cyffredinol o ddeallusrwydd artiffisial (AI). Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo cyfleoedd, gweithdai a dysgu ar AI o'r ecosystem ehangach ar gyfer cleientiaid busnes drwy ein sianeli digidol.

Fel rhan o gyhoeddiad diweddar i gefnogi busnesau bach a chanolig gydag AI, bydd gwasanaeth Busnes Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen cymorth ymwybyddiaeth a mabwysiadu AI, gan weithredu argymhellion adolygiadau tymor byr diweddar ar gynhyrchiant busnesau bach a chanolig a mabwysiadu AI. Bydd hyn yn grymuso entrepreneuriaid a busnesau bach a chanolig i integreiddio AI i'w harferion busnes yn foesegol ac yn effeithiol; gyda chyngor ymarferol, dysgu a mynediad at gymorth ariannol ar uwchsgilio AI drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP) i bontio bylchau sgiliau digidol.

**Effaith AI ar y farchnad swyddi**

*Rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran swyddi mewn perygl ac effaith AI ar y farchnad swyddi*

Mae'r galluoedd newydd y mae AI yn eu cynnig eisoes yn ail-lunio diwydiannau a marchnadoedd llafur, felly mae'n hanfodol ein bod yn deall ac yn gweithredu ar y cyfleoedd, yr heriau a'r risgiau fydd yn codi yn y dyfodol er mwyn galluogi economi Cymru a'r DU i addasu a ffynnu.

Gweledigaeth Cynllun Deallusrwydd Artiffisial i Gymru yw harneisio AI i ysgogi twf economaidd cynhwysol, trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac arfogi'r boblogaeth â'r sgiliau angenrheidiol i ffynnu mewn dyfodol fydd yn cynnwys AI. I gefnogi'r uchelgais hon, mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ar y defnydd moesegol a chyfrifol o AI mewn gweithleoedd sector cyhoeddus, a thrwy hynny atgyfnerthu 'Ffordd Gymreig' unigryw y genedl o ran partneriaeth gymdeithasol. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ystyried y galw am sgiliau AI a'r cyflenwad ohonynt ar draws sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru.

Ar hyn o bryd mae AI yn trawsnewid pob sector o economi Cymru. Mae sicrhau bod busnesau yn meddu ar sgiliau AI cadarn yn hanfodol i'w helpu i barhau i fod yn gystadleuol, denu buddsoddiad newydd, a chynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel mewn diwydiannau newydd.

Er mwyn cryfhau ac alinio'r dull o uwchsgilio AI ar gyfer busnesau bach a chanolig, mae cydweithio â rhanddeiliaid allweddol fel Ffederasiwn Busnesau Bach, Busnes Cymru, Hwb Arloesi Seiber, a Hartree Centre yn parhau .

Ym mis Ionawr, fe wnaethom lansio cynllun peilot sgiliau AI , gan roi Busnes Cymru a'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg gyda'i gilydd i gefnogi busnesau llai i bontio bylchau sgiliau digidol a chyflymu'r broses o fabwysiadu AI moesegol a chyfrifol mewn economi ddigidol sy'n esblygu'n gyflym. Bydd y cynllun peilot gwerth miliynau o bunnoedd hwn yn rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2026 a bydd hefyd yn datblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith polisi hirdymor i gefnogi sgiliau AI effeithiol a moesegol yn economi Cymru.

Drwy fabwysiadu technolegau AI a buddsoddi mewn datblygu sgiliau, gall Cymru ddatgloi manteision sylweddol o ran cynhyrchiant economaidd ac effeithlonrwydd y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn grymuso unigolion a chyflogwyr i addasu, ffynnu ac arwain mewn economi ddigidol sy'n esblygu'n gyflym. Serch hynny, mae cydnabyddiaeth glir o'r risgiau a'r effeithiau posibl y gall AI eu cael ar y gweithlu, hawliau dynol, a chymdeithas ehangach. Felly, mae adeiladu hyder y cyhoedd ac ymddiriedaeth yn y defnydd o AI yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylfaenol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Jo Stevens
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

15 Ionawr 2026

Annwyl Jo,

**Ymchwiliad Dur**

Rwy'n hynod siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi gallu cynnig Gweinidog i ddod i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'n hymchwiliad i ddyfodol dur yng Nghymru. Rwy'n cydnabod i chi ddod i'n sesiwn ym mis Tachwedd 2024, a hoffwn ddiolch i chi am hynny. Fodd bynnag, bu datblygiadau sylweddol ers y cyfarfod hwnnw, ac mae'n hanfodol ein bod yn clywed safbwynt Llywodraeth y DU am hyn.

Mae'r tîm clercio wedi bod mewn cysylltiad â'ch swyddfa chi a swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach i geisio trefnu amser addas i chi. Bu'r Pwyllgor mor hyblyg â phosibl o ran dyddiadau. Mae'n rhwystredig iawn nad ydym wedi clywed dim gan yr Adran Busnes a Masnach.

Er fy mod yn gwerthfawrogi eich dymuniad i aros i'r Strategaeth Dur gael ei chyhoeddi cyn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, mae natur eang ein hymchwiliad yn golygu bod eich mewnbwn yn bwysig ar gyfer llawer o faterion y tu hwnt i'r rhai a ddaw o dan y strategaeth. Mae'n cwmpasu effaith cau ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot ar economïau lleol ac ehangach Cymru a'r DU, y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd wedi colli eu swyddi, a sut mae datblygiadau diweddar yn Tata yn cyd-fynd â mentrau ehangach y llywodraeth fel y Porthladd Rhydd Celtaidd. Felly, mae ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU yn hanfodol er mwyn i'r Pwyllgor ddod i farn gyflawn a sicrhau bod ein hargymhellion mor gadarn a gwybodus â phosibl.

Gan fod yr amser yn brin tan y diddymiad, rwy'n eich annog chi, neu Weinidog arall yn Llywodraeth y DU, i ailystyried a dod i un o sesiynau ein Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Byddai eich cyfraniad yn amhrisiadwy i'n gwaith ac i ddyfodol diwydiant dur Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrh. Peter Kyle AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi i: Y Gwir Anrh. Peter Kyle AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon